# Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013

**2013 dccc 2**

*Arolygiadau a sgoriau hylendid bwyd*

## 4 Y meini prawf sgorio

(1) Rhaid i'r meini prawf sgorio gynnwys system i sgorio safonau hylendid sefydliad busnes bwyd.

(2) Rhaid i'r system sgorio gynnwys darpariaethau sydd wedi eu seilio ar yr agweddau canlynol ar y sefydliad—

(a) ei arferion trin bwyd (gan gynnwys rheoli tymheredd);

(b) ei amgylchedd ffisegol (gan gynnwys ei gynllun, ei lendid a'i gyflwr);

(c) ei reolaeth;

(d) ei weithdrefnau ar gyfer cadw trefn.

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** A. 4 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 27(2)**

**I2** A. 4 mewn grym ar 28.11.2013 gan O.S. 2013/2617, **ergl. 3(d)**

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Ar hyn o bryd nid oes unrhyw effeithiau heb eu gweithredu yn hysbys ar gyfer y Deddf Sgorio Hylendid Bwyd (Cymru) 2013, Adran 4.